Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

Adroddiad ar

Cylch Meithrin Crymych

Ysgol Bro Preseli
Caban
Crymych
SA41 3QH

Dyddiad yr arolygiad: Hydref 2025

gan

Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)

a

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Ynglŷn â Cylch Meithrin Crymych

Enw'r lleoliad	Cylch Meithrin Crymych
Categori'r gofal a ddarperir	Gofal Dydd Llawn
Person(au) cofrestredig	
Unigolyn cyfrifol (os yw'n berthnasol)	Helen Davies
Person â gofal	Melville Wendy Phillips
Nifer y lleoedd	18
Ystod oedran y plant	2 i 4 oed
Nifer y plant 3 a 4 mlwydd oed	11
Nifer y plant sy'n cael eu hariannu ar gyfer addysg gynnar	4
Diwrnodau / amseroedd agor	Dydd Llun i Dydd Gwener 9yb-1yp
Gwasanaeth Dechrau'n Deg	Nac oes
Iaith y lleoliad	Cymraeg
A yw'r Cynnig Gofal Plant ar gael yn y lleoliad hwn?	Ydy
Cynnig y Gymraeg yn Rhagweithiol	Mae'r gwasanaeth yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg ac yn gwneud pob ymdrech i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru.
Dyddiad arolygiad blaenorol AGC	17 Mai 2022
Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn	Rhagfyr 2018
Dyddiadau'r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn	07/10/2025
Gwybodaeth ychwanegol	

Crynodeb

Thema	Barn
Lles	**Da**
Dysgu **(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)**	
Gofal a datblygiad	**Da**
Addysgu ac asesu **(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)**	**Da**
Yr amgylchedd	**Da**
Arweinyddiaeth a rheolaeth	**Da**

Diffyg cydymffurfio

Ni chanfyddwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfiaeth yn ystod yr arolwg yma.

Argymhellion

A1. Sicrhau llif rhydd i blant cael mynediad at eu dysgu a chwarae yn yr ardal allanol pan ddymunir.

A2. Parhau i ddatblygu systemau arsylwi sy'n bwydo camau nesaf yn y dysgu.

Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

Prif ganfyddiadau

Lles: Da

Mae bron bob plentyn yn hapus, yn fodlon ac yn ymdopi'n dda wrth adael eu rhieni. Maent yn gwneud dewisiadau'n hyderus ac yn mwynhau'r rhyddid i symud o amgylch yr ardaloedd dysgu. Mae eu dymuniadau yn cael eu parchu gan ymarferwyr. Maent wrth eu boddau yn dewis adnoddau gan fod ganddynt amser a mynediad rhwydd i ardaloedd chwarae tu fewn. Mae bron bob un yn ymuno'n naturiol â grwpiau o ffrindiau ac yn defnyddio adnoddau'n fedrus. Er enghraifft, maent yn cymryd rhan mewn gweithgareddau creadigol fel chwarae rôl yn y caffi a'r tŷ bach twt, creu ffyn sêr o ddail a brigau a chwilota am bryf cop yn y twba.

Mae bron bob plentyn yn gyfarwydd â'r drefn ddyddiol ac maent yn teimlo'n ddiogel a chartrefol. Mae ganddynt berthynas bositif a chynnes gyda'r ymarferwyr, sy'n rhoi teimlad o sicrwydd iddynt. Maent yn hyderus i alw enwau'r ymarferwyr, sy'n dangos ymdeimlad cryf o berthyn. Mae bron bob plentyn yn ymateb yn dda i ganmoliaeth, sy'n rhoi hyder iddynt rannu eu llwyddiannau. Er enghraifft, maent yn awyddus i'r ymarferwyr ddod i weld y patrymau lliwgar maent wedi'u creu ar y byrddau marcio, ac yn ymfalchïo wrth i'r ymarferwyr werthfawrogi eu hymdrechion yn frwdfrydig.

Mae llawer o blant yn rhyngweithio'n dda ac yn mwynhau cwmni ffrindiau. Trwy gydol eu chwarae, mae'r plant yn rhyngweithio'n naturiol ac maent yn garedig â'u ffrindiau, ymarferwyr ac ymwelwyr. Maent yn hapus i rannu adnoddau ac yn dysgu medrau cymdeithasol pwysig yn dda. Er enghraifft, mae plant yn hapus i gymryd tro wrth gael cyfleoedd i bwyso a mesur tywod gan ddefnyddio tafol. Tu allan, maent yn cydweithio'n brysur i lenwi sosbenni yn y gegin fwd, ac yn sgwrsio'n hapus am beth i'w ychwanegu i'r gymysgedd. Wrth wneud hynny, maent yn datrys a dewis offer i symud y tywod a dŵr o un sosban i'r nesaf. Maent yn gwenu a chwerthin wrth chwarae rôl yn y tŷ bach twt gan ddynwared creu paned o de, ysgrifennu rhestr a sgwrsio ar y ffôn.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn datblygu medrau annibynnol da ac yn cyflawni tasgau ymarferol drostynt eu hunain. Er enghraifft, maent yn mynd i'r tŷ bach a golchi a sychu eu dwylo heb gymorth, gosod cot a bag ar y bachyn ac yn arllwys eu diodydd yn annibynnol. Maent yn cymryd cyfrifoldeb dros helpu i dacluso ac am eu hylendid personol. Maent yn ymfalchïo ac yn dangos balchder wrth gwblhau cyfrifoldebau 'helpwr y dydd'.

Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir):

Nid oes adroddiad ar ddysgu'r plant. Y rheswm am hyn yw nad oedd digon o blant tair neu bedair oed yn bresennol adeg yr arolygiad nad ydynt yn derbyn addysg a ariennir yn rhywle arall i allu adrodd arnynt heb nodi plant unigol.

Gofal a datblygiad: Da

Mae gan ymarferwyr ddealltwriaeth dda o'u rolau a'u cyfrifoldebau i gadw plant yn ddiogel ac yn iach. Mae pob un ohonynt wedi cael hyfforddiant amddiffyn plant ac maent yn hyderus am y gweithdrefnau cywir i'w dilyn pe byddai ganddynt unrhyw bryderon am blentyn. Mae bob un o'r ymarferwyr wedi cwblhau hyfforddiant cymorth cyntaf pediatrig, sy'n eu galluogi i ddarparu triniaeth briodol, pe byddai angen. Maent yn cofnodi unrhyw ddamweiniau'n fanwl, gan sicrhau bod rhieni'n arwyddo'r cofnodion yn amserol. Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae ymarferwyr yn dilyn gweithdrefnau hylendid cadarn yn ystod cyfnodau byrbryd ac yn annog plant i olchi eu dwylo yn rheolaidd. Maent yn hyrwyddo bwyta ac yfed iach trwy ddarparu byrbrydau maethlon a chynnig llaeth neu ddŵr i'r plant. Mae ymarferwyr yn deall eu cyfrifoldebau i ddiogelu plant ag alergeddau. Maent yn hyrwyddo ymarfer corff yn llwyddiannus trwy sicrhau bod cyfleoedd buddiol i blant ddatblygu eu medrau corfforol ac i dreulio amser tu allan yn yr awyr iach. Mae ymarferwyr yn sicrhau urddas a phreifatrwydd wrth ddilyn polisi newid cewynnau ac yn cofnodi'r arferion hyn yn ddyddiol.

Mae ymarferwyr yn deall eu cyfrifoldebau i gefnogi plant ag anghenion dysgu ychwanegol, ac mae ganddynt rwydweithiau effeithiol a gweithdrefnau pwrpasol i'w dilyn, pan fo angen. Mae systemau cryf ar waith i gefnogi'r plant a'u teuluoedd sy'n galluogi'r ymarferwyr i adnabod y plant yn eithriadol o dda. Mae ymarferwyr yn cydweithio'n effeithiol ag asiantaethau allanol, er enghraifft athrawon ymgynghorol, ac yn gweithredu'n briodol ar gyngor a dderbynnir. O ganlyniad, mae bron pob plentyn yn gwneud cynnydd da yn eu datblygiad.

Mae ymarferwyr yn meithrin perthnasoedd gofalgar a chefnogol gyda'r plant gan ryngweithio mewn ffordd gynnes, hamddenol a chyfeillgar. Mae hyn yn cyfrannu at greu awyrgylch gadarnhaol, hapus a bywiog. Mae ymarferwyr yn casglu ystod o wybodaeth fuddiol am hoffterau, anghenion ac unrhyw wybodaeth berthnasol arall cyn i'r plant gychwyn yn y lleoliad, sy'n eu galluogi i gynllunio'n effeithiol ar eu cyfer. Mae ymarferwyr yn ymateb yn sensitif ac effeithiol iawn i anghenion unigol plant gan chwarae'n ystyrlon gyda nhw er mwyn cefnogi ac ehangu eu dysgu. Er enghraifft, maent yn defnyddio iaith syml a chlir gan hyrwyddo'r Gymraeg yn ystod gweithgareddau. Mae ymarferwyr yn cymryd eu hamser i wrando ac egluro mewn modd tyner sy'n creu awyrgylch barchus ac

ymdeimlad o berthyn. Maent yn sgwrsio'n gyson wrth ymyl y plant ac yn deall pryd i ymyrryd, neu gynnig cymorth a chlod. Mae arweinwyr ac ymarferwyr yn cynllunio amrywiaeth gyffrous o weithgareddau a phrofiadau perthnasol trwy ystyried hoff deganau, offer a diddordebau'r plant.

Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Da

Mae ymarferwyr yn cynnig amgylchedd cynnes a gofalgar ac mae ganddynt ddisgwyliadau uchel o'r plant. Mae ganddynt berthynas cryf gyda'r plant sy'n hybu awyrgylch lle mae'r plant yn hapus, yn hyderus ac yn barod i ddysgu. Mae gan ymarferwyr ddealltwriaeth gadarn o ddatblygiad plant a sut maent yn dysgu drwy chwarae ac archwilio.

Mae ymarferwyr yn adnabod y plant yn dda ac yn cysylltu'r dysgu â phrofiadau personol yn llwyddiannus. Maent yn dathlu cynnydd plant yn gadarnhaol drwy arddangos eu gwaith creu marciau cynnar o gwmpas y lleoliad. Mae'r ddarpariaeth yn hyblyg ac yn ymatebol iawn i ddiddordebau'r plant. Mae'r ymarferwyr yn dangos dealltwriaeth glir o'r hyn sy'n ysgogi'r plant ac yn defnyddio'r wybodaeth hon yn effeithiol i addasu'r amgylchedd dysgu. Er enghraifft, mae'r plant yn cael cyfle i ddewis beth i goginio a beth i blannu yn yr ardd, sy'n meithrin ymdeimlad o berchnogaeth dros eu dysgu. Mae ymarferwyr yn creu cyfleoedd cyfoethog sy'n cefnogi datblygiad medrau'r plant mewn amrywiaeth eang o gyd destunau apelgar ac ystyrlon. Maent yn defnyddio dulliau creadigol megis newid gwisgoedd ffansi yn rheolaidd i addasu cyd-destun y chwarae, gan annog dychymyg, creadigrwydd a sgiliau cymdeithasol y plant yn llwyddiannus.

Un o gryfderau'r lleoliad yw'r ffordd y mae ymarferwyr yn defnyddio'r Gymraeg yn naturiol a hyderus. Mae ymarferwyr yn modelu iaith gywir, yn defnyddio dywediadau priodol ac yn trochi'r plant yn yr iaith yn effeithiol. Maent yn datblygu medrau llafar a TGCh yn fuddiol drwy weithgareddau ymarferol a chreadigol. Er enghraifft, maent yn darparu ffonau amrywiol ar draws y lleoliad sy'n annog plant i ddechrau sgwrs a siarad am eu chwarae yn fwriadus. Mae ymarferwyr yn cynllunio profiadau pwrpasol i ddatblygu medrau rhifedd plant. Er enghraifft, maent yn annog plant i ddarllen pris eitemau yn y siop a defnyddio ceiniogau i dalu amdanynt.

Mae ymarferwyr yn rheoli ymddygiad plant yn sensitif a chadarnhaol. Maent yn annog rhannu, tacluso ac ymateb i aflonyddwch mewn modd gofalgar. Mae ymarferwyr yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i blant wneud dewisiadau, cymryd risgiau yn ddiogel a datblygu annibyniaeth. Er enghraifft, maent yn darparu llysiau a chyllyll yn y siop a'r gegin fwd er mwyn i'r plant cael eu torri cyn pwyso gyda thafol. Er bod y ddarpariaeth yn annog chwarae digymell mewn amryw leoliadau, nid yw'r drefniadaeth bresennol yn galluogi llif naturiol rhwng yr ardaloedd tu mewn a thu allan.

Mae ymarferwyr yn helpu plant i ddysgu am amrywiaeth ddiwylliannol yn effeithiol drwy ddarparu llyfrau stori addas a theganau priodol. Maent yn cynllunio cyfleoedd ystyrlon i blant archwilio amrywiaeth o gredoau a thraddodiadau diwylliannol drwy brofiadau cyfoethog megis dysgu am Ddiwali a Christnogaeth. Mae hyn yn cefnogi dealltwriaeth y plant yn dda o werthoedd megis parch, rhannu a charedigrwydd. Mae ymarferwyr yn hyrwyddo ymdeimlad o berthyn i'r gymuned leol yn llwyddiannus drwy ymweliadau gwerth chweil i'r siopau a pherfformiadau yn y capel.

Mae ymarferwyr yn gwneud arsylwadau defnyddiol ar ddatblygiad plant ac yn defnyddio'r wybodaeth hon yn fwriadus i gynllunio profiadau priodol o ddiddordeb i'r plant. Maent yn cadw cofnodion cynhwysfawr o fedrau plant ac yn dechrau ystyried y rhain i gynllunio camau nesaf yn y dysgu. Maent yn gyfarwydd â gofynion Cwricwlwm i Gymru ac maent yn herio'r plant yn briodol trwy gwestiynu bwriadus. Mae ymarferwyr yn rhannu gwybodaeth berthnasol am ddatblygiad eu plant gyda rhieni yn llwyddiannus.

Yr amgylchedd: Da

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod ganddynt fesurau cadarn o ran mynediad diogel i'r adeilad a bod cofnodion ymwelwyr yn ei le. Mae gweithdrefnau cynnal a chadw'r lleoliad yn effeithiol. Mae arweinwyr yn cwblhau asesiadau risg cynhwysfawr sy'n amlinellu'r camau i'w cymryd i leihau neu atal risg i blant. Mae ymarferion tân yn cael eu cwblhau'n rheolaidd a'u cofnodi'n drylwyr. Mae'r arweinwyr yn cadw cofnod o ba bryd mae'r ardaloedd chwarae, teganau ac adnoddau yn cael eu glanhau er mwyn sicrhau bod yr adnoddau'n lân ac mewn cyflwr addas. Maent yn cadw cofrestr presenoldeb ar gyfer plant ac ymarferwyr, ac yn sicrhau bod cymharebau ymarferwyr i blant yn gywir ar bob adeg. Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod yr hysbysfwrdd gwybodaeth yn darparu manylion clir a chynhwysfawr am ymarferwyr, polisïau a gweithdrefnau diogelu.

Mae arweinwyr yn sicrhau amgylchedd dysgu a chwarae o safon uchel sydd yn ysgogol ac yn cynnig cyfleoedd cyfoethog i blant archwilio tu mewn a thu allan i'r adeilad. Mae'r amgylchedd yn groesawgar a chartrefol ac mae digon o le i'r plant symud o gwmpas yn rhwydd. Mae arweinwyr yn sicrhau bod y plant yn meithrin ymdeimlad o berthyn trwy arddangos esiamplau o'u gwaith a ffotograffau. Maent wedi trefnu'r ystafell chwarae yn addas gydag ardaloedd dysgu pwrpasol sy'n hybu datblygiad y plant ac yn cynnig profiadau chwarae cyfoethog. Mae arweinwyr yn sicrhau cyfleoedd i blant chwarae yn yr awyr agored gyda dŵr a thywod, a datblygu eu medrau corfforol wrth chwarae ar yr offer dringo a'r beiciau. Mae'r amgylchedd yn caniatáu cyfleoedd addas i blant fynd i'r toiledau a golchi'u dwylo'n annibynnol.

Mae arweinwyr yn sicrhau bod ystod eang o adnoddau ac offer diddorol a chyffrous ar gael er mwyn gallu cynnig gweithgareddau ysgogol a gwerthfawr i blant. Mae'r adnoddau ac offer o ansawdd da ac yn cael eu storio ar lefel isel er mwyn galluogi'r plant i wneud dewisiadau yn annibynnol. Maent yn darparu cyfleoedd di-ri i brofi gydag amrediad eang o adnoddau bwyd go iawn megis llestri, ffrwythau a llysiau ffres yn yr ardaloedd chwarae rôl. Tu allan, maent yn cynnig cyfleoedd i blant gymryd cyfrifoldebau ar gyfer gofalu am blanhigion a blodau. Mae dewis addas o adnoddau ar gael er mwyn hyrwyddo ymwybyddiaeth y plant o amrywiaeth a ddiwylliannau gwahanol, gan gynnwys nifer dda o lyfrau, pypedau, cymeriadau plastig a jig sos pren. Maent hefyd yn sicrhau gweithgareddau ac arddangosfeydd er mwyn hybu dealltwriaeth y plant o ddathliadau aml diwylliannol.

Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da

Mae arweinwyr yn darparu arweinyddiaeth effeithiol ac ymroddedig sy'n cyfrannu'n sylweddol at ansawdd y ddarpariaeth. Mae'r datganiad o ddiben yn glir, yn gynhwysfawr ac yn adlewyrchu dealltwriaeth gadarn o safonau cenedlaethol. Mae arweinwyr yn llwyddo i greu ethos hynod gartrefol a chynhaliol lle mae plant ac ymarferwyr yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi. Mae'r tîm yn cydweithio'n dda ac mae'r drefn cyfarfodydd staff wedi ei wreiddio'n gadarn. Maent yn defnyddio'r cyfnodau yma'n bwrpasol i fyfyrio, trafod syniadau a gweithredu ar yr hyn sydd angen ei ddatblygu ymhellach.

Mae arweinwyr yn darparu arweinyddiaeth brofiadol ac effeithiol gan ymateb yn hyblyg i heriau. Maent yn gweithredu systemau recriwtio diogel. Mae'r pwyllgor ac arweinwyr yn trefnu goruchwyliaeth staff ac arfarniadau blynyddol priodol sy'n nodi targedau defnyddiol ar gyfer gwella. Mae gan y lleoliad amrywiaeth o bolisïau a gweithdrefnau cyfredol sy'n cefnogi ymarferwyr yn effeithiol yn eu gwaith.

Mae gan arweinwyr brosesau hunanwerthuso cadarn. Maent yn casglu barn plant, rhieni a gofalwyr yn ogystal â chydweithio'n effeithiol ag asiantaethau allanol er mwyn cynllunio ar gyfer gwelliant. Maent yn cydnabod eu cryfderau a meysydd priodol ar gyfer gwella. Gwna arweinwyr ddefnydd da o grantiau i wella'r ardal allanol a threfnu profiadau cyfoethog, creadigol i'r plant gan ymarferwyr arbenigol. Maent hefyd yn rhoi cyfleoedd gwerthfawr i staff ddatblygu'n broffesiynol trwy fynychu hyfforddiant pwrpasol sy'n hyrwyddo eu gwaith, a meysydd gwella'r lleoliad, yn effeithiol. Er enghraifft, trwy ddilyn hyfforddiant cwricwlaidd maent yn datblygu ardaloedd yn fwriadus i hyrwyddo medrau cyfathrebu plant yn fwy effeithiol.

Mae gan arweinwyr cydberthnasau agos gyda ymarferwyr a'r rhieni a gofalwyr. Maent yn cyfathrebu'n effeithiol gyda rhieni drwy gyfryngau cymdeithasol, sgyrsiau rheolaidd a chyfarfodydd ffurfiol. Maent yn trefnu cyfnodau ymgartrefu buddiol cyn i blant ddechrau yn y lleoliad lle mae rhieni yn gallu treulio amser yno gyda'u plant. Mae hyn yn rhoi cyfle gwerthfawr i'r plant a rhieni ddod i adnabod ymarferwyr a chyfarwyddo gyda gweithdrefnau'r lleoliad a'r amgylchedd ddysgu.

Mae partneriaethau cryf gyda'r ysgol gynradd ac asiantaethau eraill yn cefnogi pontio a chynnydd plant, gan gynnwys plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol, yn effeithiol. O ganlyniad, mae plant yn symud yn hyderus i'r cam nesaf o'u haddysg. Mae arweinwyr yn sicrhau fod y gymuned yn rhan allweddol o chwarae a dysgu plant yn y lleoliad. Er enghraifft, maent yn trefnu ymweliadau rheolaidd i'r ysgol leol ac i'r gymuned leol ac yn gwahodd ymwelwyr o'r gymuned i mewn i'r lleoliad.

Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan AGC ac Estyn (http://careinspectorate.wales) (www.estyn.llyw.cymru)

Mae AGC ac Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

Rhagorol	Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig
Da	Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig y mae angen eu gwella'n sylweddol
Digonol	Cryfderau yn gorbwyso gwendidau ond mae angen gwelliannau
Gwael	Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau ac mae angen gwelliannau sylweddol

Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2025: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl: (a) mewn unrhyw fformat neu gyfrwng; a (b) gellir ei gyfieithu gan neu ar ran darparwr addysg a/neu hyfforddiant y mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef i unrhyw iaith, ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio ac/neu ei gyfieithu'n gywir ym mhob achos ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Ym mhob achos, rhaid cydnabod y deunydd (gan gynnwys unrhyw gyfieithiad) fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 09/12/2025